

Perygl llifogydd ac amddifadedd cymdeithasol

Dyma'r dadansoddiad wedi'i ddiweddarau o amddifadedd cymdeithasol a pherygl llifogydd, gan ddefnyddio data o'r Asesiad Cenedlaethol o Berygl Llifogydd a'r Mynegeion Amddifadedd Lluosog.

Dogfennau

[Adroddiad ymchwil perygl llifogydd ac amddifadedd cymdeithasol](#)

Crynodeb

Dyma ein dadansoddiad wedi'i ddiweddarau o amddifadedd cymdeithasol a pherygl llifogydd. Gwnaethom gyhoeddi ein dadansoddiadau blaenorol yn 2006 a 2020. Ers hynny, mae'r setiau data a ddefnyddiwyd wedi cael eu diweddarau, gan gynnwys yr Asesiad Cenedlaethol o Berygl Llifogydd (NaFRA) ac ail-ryddhau'r Mynegeion Amddifadedd Lluosog (IMD) yn 2025.

Defnyddiodd y dadansoddiad hwn y data diweddaraf oedd ar gael ym mis Ionawr 2026.

Y nod oedd asesu a oes anghydraddoldeb yn nosbarthiad y poblogaethau sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd ar draws grwpiau wedi'u rhestru yn ôl amddifadedd, yn genedlaethol yn Lloegr ac o fewn is-samplau.

Mae'r dadansoddiad yn dangos:

- bod anghydraddoldebau yn dal i fod yn Lloegr yn y raddfa o gysylltiad â llifogydd
- bod anghydraddoldebau yn bodoli yn achos llifogydd o afonydd ac o'r môr, a llifogydd dŵr wyneb
- bod cymunedau arfordirol yn profi rhai o'r achosion gwaethaf o anghydraddoldeb perygl llifogydd
- bod anghydraddoldebau i'w cael hefyd mewn ardaloedd trefol
- na chanfuwyd unrhyw anghydraddoldeb yn y raddfa o gysylltiad â llifogydd mewn ardaloedd gwledig

Mae'r adroddiad yn manylu ar y setiau data a ddefnyddir, methodoleg, canlyniadau a chanfyddiadau'r dadansoddiad.

Gwybodaeth am y prosiect

Rheolwr y Prosiect: Anna Lorentzon

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth FCRM Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r rhaglen ar y cyd ar gyfer Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Metadata'r Prosiect

Categori

Cynyddu'r gallu i wrthsefyll llifogydd.

Pynciau

Llywodraethu perygl llifogydd, ymateb a gwytnwch cymunedol, asesu perygl llifogydd, iechyd, diogelwch a lles

Cod y prosiect

FRS25988

Dyddiad cychwyn:

Hydref 2025

Dyddiad cwblhau:

Mai 2026